

Patrwm cyflwyno *O fis Hydref i fis Mehefin*

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl traethawd hir yn adeiladu ar ddysgu blaenorol y myfyrwyr o Gam 1 (EE811) a Cham 2 (EE812) drwy ehangu eu sgiliau ym maes cynllunio ymchwil empiraidd fel y mae'n berthnasol i bynciau arwain a rheoli. Yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o natur ymchwil addysgol, dulliau methodolegol, moeseg a'r gydberthynas rhwng yr ymchwilydd a'r cyfranogwr, mae'r modiwl hefyd yn rhoi'r adnoddau i fyfyrwyr archwilio a myfyrio ar eu hymarfer eu hunain a'u cysyniadau am ymchwil drwy bwnc ymchwil o'u dewis.

Mae'r modiwl yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr gynnal astudiaeth empiraidd ar raddfa fach yn eu gweithle (neu leoliad cymeradwy) sy'n cyfrannu at eu dealltwriaeth o ffyrdd o gefnogi datblygiad a/neu effeithiolrwydd sefydliadol. Dewisir pwnc astudiaeth ymchwil y myfyrwyr mewn ymgynghoriad â'u tiwtor, a rhaid iddo fod o fewn cwrpas ymarferol y rhaglen radd MA Addysg.

Ar ôl cwblhau'r modiwl, bydd y myfyrwyr mewn sefyllfa i fynd ymlaen i astudio ar lefel ôl-raddedig, er enghraifft rhaglenni Doethuriaeth mewn Addysg neu PhD.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd uwch berthnasol, ar lefel meist'r o leiaf, ac, yn ddelfrydol, ar lefel ddoethurol
- gwybodaeth gadarn am ddulliau methodolegol o ymchwilio ac ymholi
- gwybodaeth am bolisi addysg ac ymarfer mewn amrywiaeth o leoliadau;
- gwybodaeth am arbenigedd ym maes arwain a rheoli
- gwybodaeth am lenyddiaeth a dulliau ymchwil mewnol a/neu sy'n seiliedig ar yr ymarferydd, a phrofiad ymarferol ohonynt
- profiad o addysgu myfyrwyr lefel meist'r ar-lein
- y gallu i feithrin dealltwriaeth a gwybodaeth feirniadol myfyrwyr ac i feithrin dealltwriaeth myfyrwyr o'r broses ymchwilio
- profiad o oruchwylio myfyrwyr ar lefel ôl-raddedig (yn ddelfrydol mewn amgylcheddau dysgu ar-lein/o bell)
- profiad o farcio ac asesu traethodau hir, a rhoi adborth arnynt
- tystiolaeth o annog deialog, rhyngweithio rhwng myfyrwyr ac ymarfer arloesol mewn perthynas â hyfforddiant ar-lein rhyngweithiol
- tystiolaeth o ymrwymiad i ymgysylltu â chydweithwyr modiwlau eraill mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein
- y gallu i drefnu a chymryd rhan mewn gweminar ar bynciau ymchwil penodol (e.e. moeseg/casglu data/dadansoddi data)
- y gallu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu 'cymuned ymarfer' a gwaith cydweithredol, a hynny o fewn y grwpiau tiwtorial a thîm y modiwl.

Byddai'n fanteisiol i chi feddu ar y canlynol:

- ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ym maes arwain a rheoli ac ymchwil addysgol ac i rannu'r wybodaeth hon â chydweithwyr a myfyrwyr
- ymrwymiad i gymryd rhan mewn trafodaeth â chymheiriaid am addysgu a dysgu – yn enwedig addysgeg ar-lein
- ymrwymiad i hwyluso cymorth cyfoedion ymhlith y myfyrwyr
- gwybodaeth am lenyddiaeth a dulliau ymchwil mewnol a/neu sy'n seiliedig ar yr ymarferydd, a phrofiad ymarferol ohonynt

Manylion y modiwl – gallwch gael eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyriwr am gwblhau modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	2
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	3
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	12
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4

Disgwylir i'r Darlithwyr Cyswllt hefyd farcio a dilysu'r aseiniadau diwedd modiwl a gyflwynir gan eu myfyrwyr a byddant yn derbyn taliad ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn. Yn yr un modd, cânt eu gwahodd i ailfarcio'r aseiniadau diwedd modiwl a gyflwynir gan fyfyrwyr y tu allan i'w Grŵp Tiwtora a byddant yn derbyn taliad ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn hefyd, os ydynt yn gallu ac yn dewis gwirfoddoli i gwblhau'r gwaith ychwanegol hwn.